MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoli
Remote Microsoft Teams Meeting
Dydd Gwener, 13eg Tachwedd, 2020, 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL:	Cynghorydd Sirol J.Treharne (Cadeirydd) Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-Gadeirydd)
	Cynghorydd Sirol: B. Strong

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Leigh Beach	Swyddog Trwyddedu
David Jones	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
John Pearson	Rheolwr Democratiaeth Leol
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Dim.

2. **Cais i amrywio Trwydded Mangre – Gwesty'r Kings Head (King's Head Hotel) (gan gynnwys Regency 59 a'r Coach House), 59 - 60 Stryd y Groes, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 5EU.**

Ystyriodd yr is-bwyllgor y cais i amrywio'r drwydded safle ar gyfer Gwesty'r Kings Head (gan gynnwys Regency 59 a'r Coach House), 59 - 60 Stryd y Groes. Mae'r cais yn ceisio amrywio'r canlynol:

- Ymestyn yr ardal drwyddedig i gynnwys gardd gwrw newydd yng nghefn yr eiddo.
- Oriau defnydd yr ardd gwrw i fod rhwng 10am ac 11pm o wythnos olaf mis Mawrth i wythnos olaf mis Hydref pan fydd y clociau'n newid.
- Yn ystod y gaeaf am weddill y flwyddyn, bydd yr oriau defnydd yn yr ardd gwrw rhwng 10am a 10pm. Mae cynllun sy'n dangos yr ardd gwrw arfaethedig gyda llinell goch wedi'i atodi i'r cais yn Atodiad A.
- Darparu cerddoriaeth gefndir yn ardal yr ardd gwrw.
- I ddileu amodau 14, 15, 16, 17 a 23 o'r drwydded safle bresennol.

Ystyriodd yr is-bwyllgor yr adroddiad a baratowyd gan y Swyddog Trwyddedu. Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor y canlynol:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoli
Remote Microsoft Teams Meeting
Dydd Gwener, 13eg Tachwedd, 2020, 10.00 am

Mae'r ymgeisydd o fewn ei amserlen weithredu wedi amlinellu ei drefniant o dan y pedwar amcan trwyddedu, ac awgrymir bod amodau ynghlwm wrth y drwydded newydd os cânt eu rhoi. Gellir gweld y rhain ym mharagraff 3.4.

Derbyniwyd sylwadau yn erbyn y cais gan Heddlu Gwent yn gofyn i'r ymgeisydd gytuno i dderbyn amodau trwydded amgen. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ym mharagraff 3.6 ac maent wedi'u derbyn gan yr ymgeisydd.

Gofynnodd adran Safonau Masnach Cyngor Sir Fynwy am i amodau gael eu hychwanegu at y drwydded, mae'r rhain ym mharagraff 3.7, mae'r ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn yr amodau.

Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau Adran Iechyd yr Amgylchedd mewn perthynas â niwsans sŵn sy'n effeithio ar drigolion lleol ym mharagraff 3.8 ond nodwyd bod yr adran yn nodi'r potensial i reoli ardal yr ardd gwrw yn effeithiol er mwyn lleihau unrhyw effaith sŵn ac nid ydynt yn gwrthwynebu'r cais hwn.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau nac unrhyw ymateb gan Awdurdodau Cyfrifol eraill a manylir ar hyn ym mharagraff 3.9.

Nododd y Pwyllgor y sylwadau gan ddau breswylydd lleol yn gwrthwynebu'r drwydded, fel sydd wedi'u hatodi yn Atodiad C. Yn benodol:

- Llygredd sŵn
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl gan gwsmeriaid
- Cais am ddod â'r gerddoriaeth i ben yn gynharach.
- Cais i beidio â defnyddio unrhyw gerddoriaeth yn y maes parcio.
- Cais am beidio â chael mynediad cefn i'r maes parcio o'r ardd gwrw a chodi wal i atal cwsmeriaid rhag dod i mewn i'r maes parcio.

Roedd y pwyllgor yn pryderu am y materion a godwyd ynghylch sŵn ond roeddent yn teimlo y gellid rheoli hyn yn effeithiol.

Penderfynodd y Pwyllgor ganiatáu'r cais.